Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

Annwyl Gynghorydd,

**CYNGOR SIR - DYDD MERCHER, 24AIN MAI, 2017**

Gweler yn amgaeedig, yr adroddiadau canlynol a gyhoeddwyd gan yr Arweinydd yn y cyfarfod.

| Rhif ar yr Agenda | Eitem |
|---|---|
| 7. | **DERBYN ADRODDIAD ARWEINYDD Y CYNGOR YNGHYLCH PENODI CYNGHORWYR SY'N CAEL EU DEWIS I WASANAETHU AR Y BWRDD GWEITHREDOL** **(Tudalennau 3 - 4)** |
| 8. | **DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR** **(Tudalennau 5 - 26)** |

Yn gywir,

*Mark James*

Prif Weithredwr

Amg.

# BWRDD GWEITHREDOL - 10 AELOD

| Cynghorydd | Portffolio |
|---|---|
| **Cynghorydd Emlyn Dole**<br>**Arweinydd** | Arweinyddiaeth a Strategaeth Gorfforaethol;<br>Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol;<br>Cynrychioli’r Cyngor ar CLlLC;<br>Datblygu Economaidd;<br>Yn cynrychioli’r Cyngor ar Ranbarth Dinas Bae Abertawe;<br>Cydweithio;<br>Marchnata a'r Cyfryngau;<br>Penodi Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol;<br>Penderfynu ar bortffolios ABG;<br>Cyswllt â`r Prif Weithredwr;<br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **Cynghorydd Mair Stephens**<br>**Dirprwy Arweinydd** | Rheolwr Busnes y Cyngor;<br>Adnoddau Dynol;<br>Rheoli Perfformiad;<br>Archwilio Cymru;<br>Hyfforddiant;<br>T.G.Ch .;<br>T.I.C.<br>Cynllunio strategol |
| **Cynghorydd David Jenkins**<br>**Adnoddau** | Cyllid a’r Gyllideb;<br>Effeithlonrwydd Corfforaethol;<br>Rheoli Eiddo / Asedau;<br>Caffael;<br>Budd-daliadau Tai;<br>Refeniw;<br>Gwasanaethau Statudol (Crwneriaid, Cofrestryddion, Etholiadol, Arglwydd Rhaglaw);<br>Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog;<br>Canolfannau Cyswllt a Chanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| **Cynghorydd Cefin Campbell**<br>**Cymunedau a Materion Gwledig** | Materion Gwledig ac Ymgysylltu â'r Gymuned;<br>Diogelwch Cymunedol;<br>Yr Heddlu;<br>Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015<br>Trechu Tlodi;<br>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;<br>Cyswllt y Trydydd Sector |
| **Cynghorydd Hazel Evans**<br>**Amgylchedd** | Sbwriel;<br>Clanhau Strydoedd;<br>Gwasanaethau Trafnidiaeth;<br>Cynnal a Chadw Tiroedd;<br>Gwasanaethau Adeiladu;<br>Gwasanaethau Arlwyo; |

| | |
|---|---|
| | gofalu;<br>Clanhau Adeiladau;<br>Cynlluniau Argyfwng;<br>Llifogydd |
| **Cynghorydd Linda Evans** (I'w gadarnhau)<br>**Tai** | Tai - Cyhoeddus;<br>Tai - Preifat;<br>Cydraddoldeb;<br>Heneiddio'n dda |
| **Cynghorydd Peter Hughes Griffiths**<br>**Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth** | Llysgennad Cynghorau Tref a Chymuned;<br>Datblygu'r Iaith Gymraeg;<br>Theatrau;<br>Chwaraeon;<br>Canolfannau Hamdden;<br>Amgueddfeydd;<br>Llyfrgelloedd;<br>Parciau Gwledig;<br>Twristiaeth. |
| **Cynghorydd Glynog Davies**<br>**Addysg a Phlant** | Ysgolion;<br>Gwasanaethau Plant;<br>Anghenion Addysgol Arbennig;<br>Diogelu;<br>Cartrefi Seibiant;<br>Gwasanaeth Gwella Ysgolion Integredig Rhanbarthol;<br>Dysgu Oedolion yn y Gymuned;<br>Gwasanaethau Ieuenctid;<br>Aelod arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc;<br>Llysgennad Ieuenctid |
| **Cynghorydd Philip Hughes**<br>**Diogelu'r Cyhoedd** | Safonau Masnach;<br>Iechyd yr Amgylchedd.<br>Gorfodaeth Amgylcheddol;<br>Gorfodaeth Cynllunio;<br>Gwastraff Didrwydded;<br>Gwasanaethau Parcio;<br>Bio amrywiaeth |
| **Cynghorydd Jane Tremlett**<br>**Gofal Cymdeithasol ac Iechyd** | Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion;<br>Gofal Preswyl;<br>Gofal Cartref;<br>Anableddau Dysgu;<br>Iechyd meddwl;<br>Cyswllt / Cydweithio / Integreiddio â'r GIG;<br>Pencampwr Gofalwyr;<br>Llysgennad Anabledd;<br>Pencampwr Gofal Dementia |

Cyngor Sir Gaerfyrddin

# Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd 2016-17

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# rhagair

Mae'r adroddiad blynyddol yn rhoi cyfle bob blwyddyn i'r Arweinydd fwrw golwg yn ôl ar yr hyn mae'r Cyngor wedi'i gyflawni dros y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag mae'r adroddiad ychydig yn wahanol eleni, oherwydd yn ogystal â bod yn ddiwedd blwyddyn y Cyngor, mae'n ddiwedd tymor pum mlynedd y Cyngor. Hefyd daw i derfyn gyfnod cyntaf y Cyngor dan arweiniad Plaid Cymru, a hynny gyda'n cyd-aelodau o'r Grŵp Annibynnol.

Mewn sawl ystyr, daeth pennod yn hanes y Cyngor i ben yn sgil yr etholiadau diweddar, gan i gynifer o gynghorwyr o bob un o'r tri phrif grŵp ymddeol o'r Cyngor, ar ôl gwasanaethu'r cyhoedd am flynyddoedd lu. Yn ogystal daeth cyfnod nifer o gynghorwyr blaenllaw eraill yn eu swyddi i ben, a hynny ychydig yn fwy sydyn neu annisgwyl na'r hyn roeddent wedi ei obeithio o bosibl. Yr hyn sydd ganddynt oll yn gyffredin yw'r dyhead i wasanaethu eu cymunedau lleol, a hoffwn achub ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i'w cyfraniad at waith y Cyngor dros y blynyddoedd.

Credaf fod yn rhaid i mi dalu teyrnged i un cynghorydd yn benodol sy'n gadael, sef un o'm rhagflaenwyr fel Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Meryl Gravell OBE. Bu Meryl yn Arweinydd y Cyngor am 13 o flynyddoedd, ac er gwaethaf ein gwahaniaethau gwleidyddol, rwyf wastad wedi parchu ei hymrwymiad a'i hymroddiad i'r Cyngor, ynghyd â'i dyhead diffuant i wneud Sir Gaerfyrddin yn lle gwell i'w thrigolion oll.

Fel Arweinydd am y ddwy flynedd ddiwethaf, rwyf yn gobeithio i mi fod yn llwyddiannus wrth gymryd yr awenau a symud y Cyngor yn ei flaen. O'r cychwyn cyntaf, addewais ddau beth penodol iawn, sef canolbwyntio ar adfywio ledled y sir a diogelu ein gwasanaethau rheng flaen. Cafodd fy ngweledigaeth ar gyfer y sir ei chroesawu'n fawr gan y Bwrdd Gweithredol, a oedd yn cynnwys yr un nifer o aelodau Plaid Cymru ac aelodau Annibynnol, a hoffwn ddiolch iddynt i gyd am eu cyfraniadau unigol at flwyddyn hynod lwyddiannus i'r Cyngor. Gyda'n gilydd rydym wedi bod yn driw i'r egwyddorion sylfaenol hynny, wedi adfer enw da Sir Gaerfyrddin, ac wedi sicrhau bod ein sir ar y trywydd iawn tuag at ddyfodol llewyrchus a chyffrous. Mae'r cwbl wedi'i gyflawni yn wyneb toriadau llym mewn gwariant cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Uchafbwynt y flwyddyn ddiwethaf yn ddiamheuaeth oedd sicrhau Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Hwn yw'r buddsoddiad mwyaf erioed yn Ne-orllewin Cymru. Ym mis Mawrth, cyfarfu'r Prif Weinidog a Phrif Weinidog Cymru â minnau ac Arweinwyr Cynghorau Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, a Sir Benfro i lofnodi'r Fargen gwerth £1.3 biliwn a fydd yn trawsnewid tirwedd economaidd yr ardal, yn rhoi hwb o £1.8 biliwn i'r economi leol, ac yn creu 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd Sir Gaerfyrddin yn elwa ar dri phrosiect penodol: Y Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd yn Llanelli, prosiect diwydiant creadigol yn Yr Egin yng Nghaerfyrddin, a menter sgiliau a thalentau a fydd yn helpu i ddatblygu sgiliau ar gyfer y rhanbarth cyfan.

**Dros y 12 mis diwethaf mae'r Cyngor wedi:**

- Buddsoddi miliynau o bunnoedd mewn prosiectau cyffrous i greu cannoedd o swyddi sy'n talu'n dda er mwyn helpu i gadw ein pobl ifanc yn ein sir
- Lansio rhaglen 1,000 o dai fforddiadwy, yn cynnwys adeiladu 60 o dai Cyngor
- Cadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i 2.5%
- Diogelu ysgolion rhag toriadau go iawn i gyllid
- Diogelu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a chanfod arian ychwanegol ar gyfer atgyweiriadau hanfodol i briffyrdd
- Rhoi codiad cyflog haeddiannol iawn o 2.6% i'n staff sydd ar y cyflogau isaf

Mae'r cyfan hwn wedi'i gyflawni ar adeg o gyni cyllidol difrifol gan Lywodraeth y DU, a heb geiniog yn chwaneg gan Lywodraeth Cymru ar gyfer chwyddiant, costau, a biliau cyflog cynyddol.

Wrth gwrs bu dau ddigwyddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a gaiff effaith sylweddol a hirhoedlog ar lywodraeth leol yng Nghymru. Yr un cyntaf oedd etholiadau Cynulliad Cymru ym mis Mai 2016, na wnaethant lawer o argraff. Ond roedd un canlyniad hynod bwysig lle collodd y gweinidog dros lywodraeth leol ei sedd. Yn sgil y canlyniad, rhoddwyd stop yn ddirybudd ar y bwriad i ad-drefnu llywodraeth leol yn llwyr, ac yn ei le gosodwyd llawer mwy o bwyslais ar gydweithio rhwng cynghorau. Mae Sir Gaerfyrddin wedi derbyn y cysyniad hwn yn llawn ac mae llwyddiant Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn adrodd cyfrolau ynghylch pa mor benderfynol ydym o weithio'n glos gydag awdurdodau cyfagos.

Yn ail oedd penderfyniad pobl Prydain i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi elwa'n fawr iawn ar gyllid gan yr UE ers blynyddoedd lawer, ac mae canlyniad refferendwm y llynedd yn debygol o'n gadael â diffyg cyllid.  Bydd yn rhaid i ni aros i weld a wnaiff llywodraeth San Steffan gadw at ei haddewid i lenwi'r bwlch.

Rwyf yn ymfalchïo yn yr hyn rydym wedi ei gyflawni yn Sir Gaerfyrddin mewn dwy flynedd yn unig. Serch hynny, ni wnawn orffwys ar ein bri — mae llawer mwy i'w wneud. Rwyf yn hyderus y bydd ein bwrdd gweithredol newydd yn barod ar gyfer yr her ac yn bwrw ymlaen â'r gwaith o greu rhagor o swyddi, codi safonau byw, darparu tai fforddiadwy, a gwneud ein cymunedau'n llefydd hyd yn oed gwell i fyw a gweithio ynddynt.

Nid addewidion gwag mo'r rhain. Rydym eisoes wedi dechrau ar gynlluniau a phrosiectau uchelgeisiol i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin, a hynny i'r genhedlaeth sydd ohoni a rhai'r dyfodol.



# adnoddau

Ers nifer o flynyddoedd mae'r Awdurdod wedi cydnabod y sefyllfa gyllido anodd y mae wedi'i hwynebu ac wedi cydnabod bod angen gweithio'n wahanol a blaenoriaethu sut mae am wario ei adnoddau cynyddol brin. Rydym bob amser wedi gallu llunio cyllideb gytbwys, er bod adnoddau'n prinhau, gan gynnal safonau gwasanaeth ar yr un pryd i raddau helaeth.

Unwaith eto eleni rydym wedi cael setliad ariannol ar gyfer un flwyddyn yn unig, ac er inni fod yn ffodus eleni i gael setliad digyfnewid, rhagwelir y bydd setliadau negyddol yn dychwelyd i Lywodraeth Leol yn y blynyddoedd i ddod.

Dros y tair blynedd nesaf, bydd angen cyflawni gostyngiadau o £23m a bwrw bod y lleihad yng nghyllid Llywodraeth Leol yn parhau, fel y rhagwelir yn ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Roedd yn rhaid i ni - wrth ymateb i'r wasgfa barhaus a'r lleihad gwirioneddol mewn cyllid, ynghyd â sicrhau ar yr un pryd fod y cynnydd o ran y Dreth Gyngor cyn lleied ag y bo modd - ddal ati i chwilio am arbedion effeithlonrwydd o ran y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau, ac, yn anffodus, o ran lefel y gwasanaethau mewn rhai achosion. Mae'r broses ymgynghori wedi bod yn eang ac yn amrywiol eleni, gan ddefnyddio gwahanol ddulliau i gael barn y bobl am y gyllideb. Mae hyn wedi galluogi trafodaeth helaeth ynghylch y gyllideb, a hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth gymryd rhan yn yr ymgynghoriad neu ymateb i'r arolygon.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, y setliad niwtral, a newidiadau i'r rhagdybiaethau dilysu, roeddem wedi gallu ailystyried rhai o'r cynigion ynghylch arbed arian a hefyd ychwanegu £1.76m at y Gyllideb Ysgolion Dirprwyedig, a bu i hynny, ynghyd â buddsoddi mewn Swyddog Ysgolion Effeithlonrwydd, roi ysgolion mewn sefyllfa gref i barhau i ddarparu gwasanaeth addysg o lefel uchel yn y dyfodol.

**Drwy gydol y broses gyllidebu rydym wedi rhoi'r pwys pennaf ar dri amcan clir:**

1. paratoi'r Awdurdod ar gyfer unrhyw ostyngiadau yn y cyllid a allai ddigwydd
2. sicrhau cyn belled ag y gellir fod lefelau a safonau'r gwasanaethau'n cael eu cynnal
3. lleihau cymaint â phosibl ar unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor, gan gydnabod bod ein dinasyddion yn ei chael hi'n anodd yn yr hinsawdd sydd ohoni.

## Buddsoddiadau Cronfa Bensiwn Dyfed

Wedi i Lywodraeth Ei Mawrhydi gymeradwyo Cronfa Fuddsoddi Cymru ym mis Tachwedd 2016, penodir yn haf 2017 Weithredwr Trydydd Parti i'r Gronfa a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, i reoli'r buddsoddiadau a'r gostyngiad mewn treuliau rheoli buddsoddiadau ar gyfer pob un o'r 8 cronfa yng Nghymru. Drwy Gytundeb Rhwng Awdurdodau, mae fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgor Llywodraethu wedi cael ei gymeradwyo ac mae Gweithgor Swyddogion wedi ei sefydlu i gynghori'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael ei ddewis fel Awdurdod Cynnal i ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol, ac i roi'r penderfyniadau a wneir gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar waith. Dros y 3 blynedd diwethaf mae gwerth y Gronfa wedi cynyddu o £1.7bn i £2.2bn ac mae'r lefel gyllido wedi codi o 89% i 97%.

## Hyrwyddo’r Gymraeg

Mae’r gwaith o hyrwyddo’r Gymraeg yn ein sir wedi parhau yn ystod y flwyddyn, ac mae cyhoeddi Strategaeth Hybu sirol, fel rhan o fframwaith y Safonau Iaith, wedi gosod her a chyfeiriad clir i ni ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Rydym wedi sicrhau bod y Strategaeth hon yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn dilyn canlyniadau Cyfrifiad 2011, tra’n ystyried y datblygiadau polisi ar lefel genedlaethol. Dymunaf ddiolch i aelodau’r Panel Ymgynghorol Aelodau a Fforwm Sirol Strategol y Gymraeg am eu sylwadau cadarnhaol wrth baratoi’r Strategaeth ac mae’n bositif i weld y cyfleoedd newydd sydd ar y gorwel wrth i ni gydweithio ar draws y sectorau.

Yn yr un modd, mae’r gwaith o gyflwyno Safonau’r Gymraeg wedi bod yn gadarnhaol, ac mae adrannau’r Cyngor yn parhau i wella o ran cynllunio gweithlu a gwasanaethau. Mae cyflwyno’r Safonau wedi bod yn gyfle euraidd i ni i edrych ar ein gwaith a lle dy ni arni o ran sicrhau cydymffurfiaeth. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o’r Safonau ac annog ein cwsmeriaid i ddefnyddio’r Gymraeg wrth gysylltu â ni.

## Diogelwch Cymunedol

Bu cynnydd o 5.7% yng nghyfanswm y troseddau a gofnodwyd ers yr un cyfnod y llynedd, o 8,160 i 8,624. Y math mwyaf cyffredin o droseddau a gofnodir yw Trais yn erbyn y Person, sy'n cyfrif am 31% o'r holl droseddau yn Sir Gaerfyrddin. Fe welwyd y cynnydd yn y troseddau hyn yn 41 o'r 42 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ymgyrch barhaus i gofnodi troseddau yn gywir yn ei gwneud hi’n anodd i gymharu dros amser. Fodd bynnag, teimlir bod y cynnydd yn fwyaf tebygol oherwydd newidiadau gweinyddol a phroses yn hytrach na newidiadau mewn ymddygiad troseddol.

Mae partneriaid yn parhau i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â meysydd allweddol o ddiogelwch cymunedol gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, gwrthderfysgaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd.

Mae swyddogion Sir Gâr yn dal i godi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau lleol o faterion troseddau allweddol a negeseuon atal troseddau, trwy ddefnyddio Newyddion Sir Gâr, sylw yn y cyfryngau a’r cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn bu ffocws ar sgamiau, diogelwch ar y ffyrdd a cham-drin domestig - yn benodol yn ystod gêm rygbi Dydd Calan, Ras y Masgot a chofnodi 'Diwrnod y Rhuban Gwyn'. Nodwyd degawd ers yr ymosodiad ar Paul Pugh a llwyddiant ei ymgyrch ‘Addewid Paul' i leihau trais sy'n gysylltiedig ag alcohol a chodi ymwybyddiaeth o droseddau treisgar. Mae’r cyngor hefyd wedi cynnig cyngor ar atal troseddau cyffredinol yng nghyd-destun diogelwch y cartref ac annog preswylwyr i gymryd camau rhag bod yn ddioddefwr trosedd.

# adfywio

Fel y soniais yn fy nghyflwyniad, cafwyd un o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanes modern Cyngor Sir Caerfyrddin ym mis Mawrth eleni pan fu i Brif Weinidog Prydain, Prif Weinidog Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac Arweinwyr siroedd Caerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phenfro gyfarfod yn Stadiwm Liberty i lofnodi'r Fargen Ddinesig ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Mae'n Fargen sy'n rhoi achos i'n dinasyddion gredu mewn dyfodol mwy llewyrchus a mwy ffyniannus; mae'n rhoi rheswm i'n pobl ifanc ddychwelyd adref o'u hastudiaethau gan wybod y bydd cyfleoedd a swyddi o ansawdd; mae'n rhoi hyder i'n busnesau fuddsoddi mewn rhanbarth sy'n adfywio'n fewnol ac sy'n edrych mas tua'r farchnad fyd-eang, a hynny gyda syniadau ac arloesedd newydd ar draws cynifer o sectorau. Estynnwn oll groeso cynnes i fargen sy'n datganoli'r berchnogaeth a'r cyfrifoldeb dros adfywio i'r lefel ranbarthol ac i'r Fargen Ddinesig.

Rhoddwyd y fargen at ei gilydd yng nghyd-destun yr economi ranbarthol sydd, o ran ei gwerth ychwanegol gros (GVA), wedi disgyn o 90% o gyfartaledd y DU i 77% dros y deg mlynedd ar hugain diwethaf. Rydym yn benderfynol o newid y duedd honno yn ein Rhanbarth, a chyda hynny mewn golwg cytunom ar fargen sydd ag amcanion clir iawn o ran twf economaidd ac sy'n ymwneud â gwerth ychwanegol gros y rhanbarth a swyddi yn y rhanbarth drwyddo draw.

Mae'r Fargen yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad o ryw £1.3 biliwn dros gyfnod o 15 mlynedd. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys £241 miliwn o gyllid rhwng y ddwy lywodraeth, £360 miliwn o gyllid cyhoeddus arall a £673 miliwn o gyfraniadau gan y sector preifat. Bydd y buddsoddiad hwn yn creu hyd at 10,000 o swyddi newydd yn y rhanbarth gan arwain at gynnydd o £1.8 biliwn o ran y gwerth ychwanegol gros.

Bydd Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd Llanelli yn denu buddsoddiad i'r ardal a fydd yn werth dros £200 miliwn. Nod penodol y Pentref yw creu'r amodau cywir ar gyfer creu swyddi cynaliadwy o ansawdd uchel. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynnig cyfle 'unwaith mewn oes' i greu dros 1800 o swyddi o safon yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer ymchwil a datblygu busnes. Ar yr un pryd, byddai'n darparu'r seilwaith angenrheidiol i helpu i sefydlogi'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn lleol a darparu canlyniadau gwell i gleifion. Bydd y pentref yn lleihau anghydraddoldebau yn lleol drwy dargedu elfennau penodol o'r ddarpariaeth swyddi a hyfforddiant. Bydd yn creu cyfleoedd i wella iechyd drwy ddulliau atal salwch a thrwy hyrwyddo iechyd da, ac yn creu cyfleoedd i hyrwyddo annibyniaeth drwy dechnoleg a mynediad gwell at wasanaethau.

Er mwyn i'r Pentref gyflawni ei nod mae nifer o bartneriaid craidd wedi dod ynghyd, gan bontio ffiniau traddodiadol i wneud yn fawr o'r cyfleoedd cyffredin a fydd yn cael eu hwyluso gan seilwaith nodedig a fydd wedi'i ddylunio'n briodol. Mae'r partneriaid craidd, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, Prifysgol Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ynghyd â'u rhanddeiliaid unigol, yn gweithio ar sail y cylch gwaith estynedig hwn i ddylunio'r systemau integredig mwyaf effeithiol.

Bydd y Pentref yn darparu'r holl elfennau angenrheidiol ar gyfer hyfforddi a chadw uwch-weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, a hynny ar un safle. Mae potensial i sefydlogi systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn y Sir ac yn y rhanbarth ehangach. Bydd y systemau gofal iechyd a gynigir yn sicrhau bod y claf yn ganolbwynt i'r penderfyniadau gofal, gan fabwysiadu dull amlddisgyblaethol i wneud yn fawr o'r canlyniadau. Nod y Pentref ar hyd yr amser fydd cynnal annibyniaeth a, lle bo angen ymyrraeth, sicrhau bod hyn yn digwydd cyn gynted â phosibl ac felly â chyn lleied o ymyrraeth â phosibl.

Bu'r gwaith o baratoi cynnig y Fargen yn orchest fawr dros gyfnod hir. Rhaid diolch i'r swyddogion yn Awdurdodau Abertawe, Caerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Phenfro, ac ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant yn ogystal â Byrddau Iechyd Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda, sydd wedi ymrwymo'n llwyr i'r Fargen Ddinesig hon. Hefyd, rhaid diolch i aelodau a swyddogion Bwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe, ac wrth gwrs i aelodau etholedig y pedwar Awdurdod am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth i'r Fargen. Gwnaethom benderfynu gwneud y gwaith ein hunain, yn hytrach na thrwy ymgynghorwyr, ac roedd ei faich yn waith ychwanegol y bu'r swyddogion yn ymdrechu i'w wneud ar ben eu gwaith bob dydd. Bu'n ymdrech anferthol a mawr yw ein dyled i bob un ohonyn nhw am eu hymdrechion a'u brwdfrydedd. Mae hyn yn dangos beth sy'n bosibl pan fyddwn yn cydweithio ledled y rhanbarth.

Fel y dywedais ynghynt, mae'r Fargen yn hanfodol i ni yma yn Ne-orllewin Cymru o ran yr economi, ond nid dyma benllanw'r gwaith. Bydd y gwreiddioldeb a'r arloesedd a gynigir yn gatalydd i gymaint mwy yn ein rhanbarth wrth inni adeiladu ar y prosiectau hyn ac edrych mas tua'r marchnadoedd byd-eang.

Mae gan Gymru ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd ar ffurf Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ein cymell i ymgorffori yn ein polisïau a'n hamcanion saith egwyddor neu darged allweddol ym maes llesiant ac i ddilyn pum ffordd o weithio.  Mae'r Fargen hon yn enghraifft berffaith o'r pum ffordd o weithio a hyrwyddir gan y Ddeddf a thrwy gydol y rhaglen 15 mlynedd o hyd mae'n cynnig cyfle i fynd i'r afael â'r heriau parhaus yr ydym yn eu hwynebu o ran newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldeb, swyddi a sgiliau. Y nod yw cyflawni hyn mewn ffordd drawsnewidiol ac ataliol a gwneud yn fawr o'n targedau llesiant o dan y Ddeddf drwy'r rhaglen fawr hon o fuddsoddi cyhoeddus.

Rwyf wedi diolch eisoes i'r swyddogion niferus o Lywodraethau Cymru a Phrydain a gydweithiodd yn llawn â ni ac a fu'n ymwneud â ni wrth inni greu Bargen Ddinesig sy'n gweithio ac sy'n addo cymaint i'n rhanbarth. Ond hoffwn ddweud diolch arbennig iawn i'n Prif Weithredwr, Mark James, sef y Prif Weithredwr arweiniol yn nhîm y cynnig. Bu'n teithio rhwng Caerdydd a Llundain yn ddi-baid dros y chwe mis diwethaf a bu'n saernïo'r Fargen hon drwy weithio'n agos â swyddogion o Lywodraethau Cymru a Phrydain. Rydym yn ddiolchgar tu hwnt iddo.

## Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands

Cafodd Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands ei gwblhau a'i agor yn swyddogol ar 6 Hydref 2016, ym mhresenoldeb Gweinidog Llywodraeth Cymru Jane Hutt AC. Yn dilyn yr agoriad gwahoddwyd datblygwyr i'r Goleudy i weld cyflwyniadau a fideo o'r awyr o dir datblygu Cross Hands a Dafen. Roedd dros 30 o ddatblygwyr yn bresennol ar y diwrnod ac mae nifer o gwmnïau wedi dangos diddordeb mewn datblygu ar Safle Dwyrain Cross Hands.

**Mae Cam 1 o Ddwyrain Cross Hands yn cynnwys 9 llain o dir datblygu a photensial i greu 500-700 o swyddi yn y sectorau canlynol:**

- Ynni a'r Amgylchedd
- Y Diwydiannau Creadigol
- Gweithgynhyrchu uwch
- Gwaith Ariannol a Phroffesiynol
- Technoleg Bwyd-Amaeth

Daeth cyfanswm cost y Prosiect Seilwaith hwn, gan gynnwys ffordd fynediad o'r A48, i oddeutu £14.5 miliwn a gyllidwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (£6.7m), Llywodraeth Cymru (£2.16m - cyllid Trafnidiaeth a Chymoedd y Gorllewin), y Cyd-fenter (£0.54m) a chyfraniad o £5m gennym ni ein hunain.

Mae'r Cyngor Sir wedi cael cyllid ar gyfer cwblhau Cam 2 y safle cyflogaeth strategol a fydd yn ei hun yn darparu 17,500 m/sg yn rhagor o arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth, a hynny ar dir 9ha o faint. Trwy drafodaethau â Llywodraeth Cymru llwyddwyd i gynnwys Cam 2 o safle Dwyrain Cross Hands yn Rhaglen Safleoedd Strategol Llywodraeth Cymru, a ariennir yn rhannol gan y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd, ar y cyd â thri safle arall yng Nghymru.

## Rhydaman a Dyffryn Aman

Mae creu cyfleoedd i adfywio economi Dyffryn Aman wedi bod yn fater o bwys i mi dros y flwyddyn ddiwethaf, a gwelais yr angen i sefydlu tasglu i barhau â gwaith y Bartneriaeth Drefol, a ddaeth i ben ym mis Medi 2016. Mae'r tasglu wedi cwrdd sawl gwaith ac wedi canolbwyntio ar hybu'r dref. Mae safle Hen Orsaf yr Heddlu, a brynwyd gan y Cyngor Sir rai blynyddoedd yn ôl, bellach wedi cael ei werthu i ddatblygwr preifat gyda'r nod o godi adeilad dau lawr ar y safle i ddarparu cyfleoedd masnachol/adwerthu ar y llawr gwaelod a phedair fflat ar y llawr cyntaf i gwrdd â'r galw'n lleol. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys addasu adeilad presennol y Llys yn swyddfeydd. Cytunodd y Bwrdd Gweithredol i ganiatáu defnyddio'r derbyniad cyfalaf a fydd yn cael ei gynhyrchu i wella'r gyffordd gerllaw yn Stryd Marged, gyda'r nod o leihau tagfeydd ar amserau brig.

Cwblhawyd y gwaith yn ddiweddar o symud mynedfa maes parcio Carreg Aman fel bod modd gosod croesfan pelican a reolir ar Ffordd William Walker yn dilyn adolygiad diogelwch ffyrdd.

Sicrhawyd cronfa datblygu eiddo ar gyfer Rhydaman, sef Cronfa Ddatblygu Adfywio Rhydaman sydd â chyllideb gymharol fach o £300,000. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r gronfa yn y wasg leol a gwahoddwyd ceisiadau am ailddatblygu neu adnewyddu eiddo sy'n wag ar hyn o bryd neu ar gyfer datblygiadau newydd i greu gofod masnachol i greu swyddi.

Mae tri chais Cam 1 wedi dod i law ac wedi cael eu cymeradwyo i fynd ymlaen i Gam 2. Disgwylir y bydd gwaith sy'n ymwneud â'r datblygiadau hyn yn dechrau yn y flwyddyn ariannol bresennol ac yn creu dros 6,000 troedfedd sgwâr o ofod masnachol a'r posibilrwydd o greu 33 swydd newydd.

## Stryd Cyfleoedd, Llanelli (y drydedd flwyddyn - y flwyddyn olaf)

Dechreuodd y gwaith adnewyddu ar Adeiladau 10 a 12 Stryd Stepney ym mis Mehefin 2016. Y contractwr lleol Lloyd a Gravell oedd wedi cael y gwaith o adnewyddu a chreu dau ofod masnachol newydd ar y llawr gwaelod a phedair fflat newydd ac iddyn nhw ddwy ystafell wely ar y llawr cyntaf a'r ail lawr. Bydd y gwaith yn parhau i mewn i'r haf 2017, ar y cyd â gwaith yn 48 Stryd Stepney, ac wedyn bydd llefydd yn cael eu rhoi ar y farchnad i'w gosod.

Yn gynharach eleni cadarnhawyd y bydd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prynu adeiladau penodol yn Stryd y Farchnad a Stryd y Parc. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £800,000 a gwnaethom ni fel Cyngor roi £314,000 ychwanegol. Mae'r trafodaethau â pherchnogion eiddo wedi mynd rhagddynt yn dda ac roedd wyth adeilad wedi eu prynu erbyn diwedd mis Mawrth.

Bydd cyfanswm gwerth y prosiect hwn dros £4.3 miliwn a byddai 15 o adeiladau ac un safle datblygu wedi cael eu prynu yng nghanol y dref.

## Cyllid Benthyciadau

Menter sy'n cael ei gyrru a'i chyllido gan Lywodraeth Cymru yw Cyllid Benthyciadau Canol Tref Llanelli, ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi sicrhau £750,000 a allai gael ei ail-fuddsoddi, fesul achos, dros gyfnod o 15 mlynedd. Cafodd y prosiect ei lansio'n ffurfiol ym mis Gorffennaf 2016 a chafwyd tri chais erbyn y dyddiad cau ym mis Medi. Yn dilyn asesiad cafodd y prosiect i ailddatblygu Adeilad Raffles ei ddewis fel yr hoff brosiect, gyda'r cyllid yn amodol ar gyflwyno ac asesu cais Cam 2. Mae'r cynigion datblygu yn cynnwys dymchwel yr adeilad presennol a chreu adeilad chwe llawr o ansawdd a fyddai â gofod masnachol ar y llawr gwaelod a chyfanswm o 16 o fflatiau â dwy ystafell wely a hefyd dwy fflat penty ar y lloriau uwch.



Bu trafodaethau cadarnhaol yn mynd rhagddynt gydag ymgeisydd y benthyciad a bydd cais cynllunio yn cael ei lunio er mwyn ei gyflwyno yn yr haf eleni. Cyn belled â bod cais Cam 2 yn cael ei gymeradwyo, bydd cyllid yn cael ei ryddhau er mwyn i'r prosiect gychwyn yn hwyrach eleni.

## Cronfa Datblygu Eiddo ledled y Sir

Cafodd y Gronfa hon, sy'n werth £3m, ei lansio ym mis Mai 2016 i'n helpu ni i weithio gyda datblygwyr er mwyn gweithredu cynlluniau. Dros y 12 mis diwethaf cafwyd 27 o geisiadau oedd yn gofyn am gyfanswm o £27m o gyllid. Rhoddwyd blaenoriaeth i chwe ymgeisydd ac maen nhw wrthi'n llunio ceisiadau manwl gyda golwg ar gael y £3 miliwn sydd ar gael. Pan fyddan nhw wedi'u cwblhau gall y prosiectau hyn, gyda'i gilydd, greu cynifer â 162 o swyddi ledled y sir.



## Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin

Mae'r gronfa hon yn werth £2 filiwn ac fe'i lansiwyd ym mis Mai 2016. Mae'r gronfa wedi'i hymrwymo'n llawn ac ar Gam 1 o'r broses ymgeisio cafodd pump o'r 30 o ymgeiswyr gwreiddiol gynnig yn ffurfiol grantiau sy'n dod i gyfanswm o £420k. Mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo yn achos pedwar o'r pum prosiect. Pan fydd y cynlluniau wedi'u cwblhau fe allent greu 100 o swyddi newydd ar gyfer cymunedau gwledig.

## Taclo Tlodi

Mae Cymunedau'n Gyntaf yn darparu rhaglenni i wella lles economaidd, sgiliau ac iechyd preswylwyr yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y sir. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, drwy'r rhaglen, mae 299 o oedolion wedi ennill cymwysterau achrededig a 377 wedi derbyn cymorth sgiliau sylfaenol. Mae dros 500 o oedolion wedi cymryd rhan mewn rhaglenni Hybu Lles Meddyliol. Mae 213 o drigolion wedi cael cymorth gyda sgiliau digidol a dros 350 wedi derbyn cymorth cynhwysiant ariannol. Trwy'r rhaglen mae 63 o drigolion wedi cael gwaith ac mae cannoedd o drigolion wedi derbyn cymorth cyflogaeth drwy 121 o glybiau mentora a swyddi.



Mae gwirfoddolwyr wedi rhoi dros 1,500 o oriau o wirfoddoli yn uniongyrchol ar y rhaglenni Cymunedau'n Gyntaf. Trwy'r Rhaglen Credydau Amser, a gefnogir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, mae dros 1300 o wirfoddolwyr wedi gwirfoddoli dros 12,750 o oriau yn y sir eleni.

## Pentywyn



Agorwyd Canolfan Fasnachol Parry Thomas yn swyddogol ac mae'n cael ei llenwi ar hyn o bryd. Cafwyd cynigion am y pedair uned fasnachol ar y llawr gwaelod a'r bwyty ar y llawr cyntaf a llofnodwyd tenantiaethau gyda thri o'r pum busnes sy'n cynnig cymryd meddiant o'r unedau. Bydd cam nesaf y prosiect yn cynnwys canolfan ymwelwyr newydd Traeth y Gwibwyr; Eco-Gyrchfan; a Phrosiect Ymwelwyr. Dewiswyd y prosiect fel un o ddeg prosiect sydd, ar hyn o bryd, yn mynd i rannu'r £27 miliwn a geir yng nghronfa 'Cyrchfannau Denu Twristiaeth' Croeso Cymru a gyllidir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Sicrhawyd grant pellach gwerth £1.5m gan gronfa Llywodraeth Cymru - Arian Cyfatebol a Dargedir - ac rydym ni fel Awdurdod wedi clustnodi £2.5m o gyllid cyfalaf i'r prosiect. Yn amodol ar gael caniatâd cynllunio a chadarnhad ynghylch cyllid pellach, disgwylir y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Ebrill 2018.

# yr amgylchedd

## Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin

Mae gan gynllun Gorllewin Caerfyrddin y potensial i sicrhau 1,100 o dai, y datblygiad tai mwyaf yng nghynllun datblygu lleol Sir Gaerfyrddin. Bydd yn creu ffordd gyswllt newydd, ysgol gynradd, mannau cyflogaeth, canolfan manwerthu bach, mannau agored a thai fforddiadwy. Mae Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin gwerth £1.3m yn elfen allweddol o'r datblygiad a bydd yn cysylltu'r A40 ar bwys Travellers Rest â Ffordd y Coleg, gan ddarparu mynediad uniongyrchol i'r rhwydwaith cefnffyrdd ar gyfer Parc Dewi Sant, pencadlys newydd S4C a champws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant Yn sgil y cynnydd da a wnaed ar y cynllun hwn, dyfarnwyd £1.19m yn ychwanegol i Gyngor Sir Caerfyrddin i barhau i sicrhau cynnydd ar y cynllun pwysig strategol hwn.

## Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands

Dyfarnwyd £716,000 ar gyfer cam 2 Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands. Mae hwn yn barhad o'r ffordd o'r man sydd ar hyn o bryd yn croesi ar draws Heol y Llew Du tua'r gogledd er mwyn ymuno â'r A476. Ystyrir hwn yn gynllun trawsnewidiol o bwysigrwydd rhanbarthol sy'n rhan o Gynllun Trafnidiaeth Lleol Dinas-ranbarth Bae Abertawe, a allai arwain at 1,500 o swyddi newydd.

## Cynlluniau cerdded a beicio yn y sir

Bydd £830,000 yn mynd tuag at gynlluniau cerdded a beicio yn y sir. Bydd hyn yn cynnwys Llwybr Beicio cyffrous Dyffryn Tywi a fydd, ar ôl cael ei gwblhau, yn cysylltu cymunedau, yn darparu llwybr hygyrch a diogel ar hyd Dyffryn Tywi yn ogystal â bod yn sbardun allweddol o ran yr economi twristiaeth/ymwelwyr, amcangyfrifir bydd yr effaith economaidd tua £1-2m gan greu hyd at 40 o swyddi newydd y flwyddyn. Rydym hefyd wedi buddsoddi yn Llwybr Beicio Dyffryn Aman, ein rhaglen cysylltiadau trefol a Llwybrau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Mae gennym strategaeth feicio uchelgeisiol a gefnogir gan fuddsoddiad gwirioneddol mewn seilwaith. Yn hwyrach eleni bydd felodrom Tref Caerfyrddin yn cael ei adnewyddu i safon cystadlu gan gynnig lleoliad yn y dref ar gyfer cystadlaethau cenedlaethol nad ydym wedi eu gweld ers dros 50 mlynedd. Yn ogystal, mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer buddsoddiad gwerth hanner miliwn o bunnoedd mewn llwybr beicio cylch cyfyng gerllaw Parc Gwledig Pen-bre. Hwn fydd y cyntaf o'i fath yng Nghymru a bydd yn galluogi pawb boed yn ddechreuwyr neu'n feicwyr proffesiynol i gymryd rhan mewn rasio cylchol di-draffig yn un o'n mannau prydferthaf yn y sir. Yn ogystal â'r cynlluniau am drac beicio newydd yn Nyffryn Tywi, bydd y datblygiadau hyn yn gatalydd i Sir Gaerfyrddin ddod yn un o'r prif ganolfannau ar gyfer beicio yng Nghymru.

## Rhydaman

Bydd £400,000 yn cael ei fuddsoddi mewn cynllun i adeiladu prif gylchfan newydd wrth gyffordd Tirydail a fydd yn lleihau'r tagfeydd traffig yn y dref a diogelu hyfywedd Canol Tref Rhydaman o ran mynediad i'r briffordd am flynyddoedd i ddod.

## Collaboration

Yn ddiweddar cefais y pleser o fod yn bresennol yn ystod ymarfer tendr a gwblhawyd yn ddiweddar ar gyfer y Fframwaith Ymgynghoriaeth Peirianneg Rhanbarthol (a arweiniwyd gan NPS) ar gyfer rhanbarth De-orllewin a Chanolbarth Cymru.  Roedd tîm o Sir Gaerfyrddin wedi arwain y grŵp rhanbarthol a oedd hefyd yn cynnwys Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Powys.

Mae'r cydweithio hefyd yn cynnwys peirianneg adeiladu ac unwaith eto Sir Gaerfyrddin yw'r Awdurdod arweiniol ar gyfer Fframwaith Rhanbarthol De-orllewin Cymru, ac mae Contractwyr y Fframwaith wedi cyflawni prosiectau strategol allweddol megis Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin a'r llwybr beicio ar hyd y brif A4138 sy'n cysylltu Llanelli â'r M4, a byddant yn cynorthwyo yn y gwaith rhagbaratoi ar gyfer Canolfan Llesiant a Phentref Gwyddorau Bywyd ARCH.

## Llwybrau Diogel mewn Cymunedau

£377,500 has been allocated for a series of road safety and sustainable travel improvements in the Cwmamman and Whitland areas, aimed at encouraging healthy sustainable travel choices by facilitating walking and cycling to and from school as well as within the wider community.

## Grantiau Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd

Rydym wedi cyflawni cynllun diogelwch ffyrdd gwerth £225,900 ar yr A484 o Gaerfyrddin i Genarth ac wedi cyflawni cynllun gwerth £216,000 ar yr A4214/B4304 Llanelli yn 2016/17.   Roedd grant refeniw diogelwch ffyrdd Llywodraeth Cymru wedi darparu addysg a hyfforddiant am ddiogelwch ffyrdd drwy gyfrwng amrywiaeth o fentrau.

## Bwcabus

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau rhagor o gyllid nid yn unig i barhau â'r cynllun Bwcabus presennol yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ond hefyd er mwyn ymestyn y cynllun i Sir Benfro gan ehangu cwmpas y prosiect. Bydd y prosiect yn gweithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd lleol, meddygon teulu, canolfannau gwaith ac ymddiriedolaethau iechyd i sicrhau bod partneriaethau gwaith mwy cadarn yn cael eu creu a sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chydlynu mewn meysydd megis gwasanaethau cludiant i gleifion nad ydynt yn achosion brys a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y prosiect hefyd yn treialu dulliau gweithio arloesol gan alluogi pobl leol i gael mynediad i wasanaethau iechyd drwy ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

## Bioamrywiaeth a Chadwraeth

Rydym yn ymroddedig i ddarparu a rheoli cynefinoedd addas ar gyfer Brithegion y Gors drwy gyfrwng y prosiect Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr.

## Polisi Cynllunio / Datblygu

Cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf, a oedd yn cynnwys y flwyddyn o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016, i Lywodraeth Cymru ar 31 Hydref 2016. Roedd yr adroddiad yn asesu i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni ac a yw polisïau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithiol. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi a oes angen unrhyw adolygiadau angenrheidiol i'r cynllun.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cyllid Adran 106 wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu 'pentref dysgu' awyr agored yn Ysgol y Bynea. Roedd hyn yn cynnwys darparu a gosod pedwar 'pod dysgu' ac ardal chwarae/gweithgareddau awyr agored. Roedd y prosiect hwn wedi cael llawer o ganmoliaeth yn ddiweddar yn ystod arolygiad Estyn o'r ysgol.

## Datblygu

Mae llwyddiant y tîm Dylunio Eiddo yn darparu ysgolion newydd a gwell fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg wedi cael cydnabyddiaeth eang. Yn benodol, mae Ysgol Porth Tywyn wedi dangos sut y gellir gwella llesiant disgyblion a staff drwy ddefnyddio dylunio arloesol, deunyddiau lleol, a chymryd agwedd cost oes gyfan tuag at gynaliadwyedd, yn enwedig o ran defnyddio ynni. Mae'r dull hwn wedi cael ei gydnabod yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan ennill nifer o wobrau a chael llu o ganmoliaeth.

## Parc Howard

Rwyf wedi bod yn awyddus iawn i gefnogi penderfyniad y Cyngor i gadw **Parc Howard** yn rhan o berchenogaeth y Cyngor. Mae hyn wedi arwain at y Cyngor yn buddsoddi £150,000 mewn offer lle chwarae newydd i ddangos ei ymrwymiad i'r parc. Roedd cam un yn cynnwys adeiladu lle chwarae newydd i blant bach gan ddefnyddio pren robina sy'n organig ac sy'n gydnaws â'r amgylchedd, y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Bydd cam dau yn cael ei gyflwyno ar gyfer caniatâd cynllunio cyn hir. Drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau o'r fath, rhagwelir y bydd yn denu rhagor o bobl i'r parc yn ogystal â thwristiaid, a fydd yn fodd o gynorthwyo cynaliadwyedd y parc a'r gymuned leol yn y dyfodol.

O safbwynt cydweithio, yn unol â phrosiect GlawLif Dŵr Cymru yn Llanelli i leihau'r risg o lifogydd ac i gynyddu bioamrywiaeth ym Mharc Howard, mae'r Cyngor a Chymdeithas Parc Howard wedi ymuno â disgyblion, staff a llywodraethwyr Ysgol Gynradd yr Hen Heol i weithio ar brosiect o'r enw 'Prosiect GlawLif a Bioamrywiaeth Ysgol yr Hen Heol'. Ddydd Iau, 9 Mawrth 2017 bu grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn plannu coed ifanc yn y parc. Roedd y rhain yn cynnwys coed bedw, ceirios, cyll a chriafol a gafodd eu rhoi gan Coed Cadw.

## Trosglwyddo Asedau

Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref, grwpiau chwaraeon a sefydliadau cymunedol eraill i gefnogi trosglwyddo cyfleusterau i reolaeth leol. Mae clybiau eisoes wedi bod yn llwyddiannus gyda cheisiadau am grantiau i wella cyfleusterau a bydd rheolaeth leol yn sicrhau bod y parciau a'r lleoedd chwarae yn cael eu cynnal a'u cadw i gyd-fynd ag amgylchiadau'r ardal leol.

## Ystadau Diwydiannol

Mae 400 a mwy o'n hunedau diwydiannol bron wedi'u gosod yn llawn ac maent yn darparu lleoliadau hyblyg o ran cyflogaeth ar gyfer busnesau lleol. Rydym hefyd wedi dechrau ar y gwaith o ailddefnyddio Gweithdai Glanaman, gwerth £2m.

Yn ystod y flwyddyn drwy gyfrwng gofynion cytundebol ein prosiectau aethom ati i ddarparu profiad gwaith i brentisiaid a rennir ynghyd â chynnig cyfleoedd drwy fentrau amrywiol megis Rhaglen Esgyn Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer y rhai nad ydynt mewn gwaith.

Roedd pedwar o bobl ifanc wedi sicrhau prentisiaethau amser llawn drwy gyfrwng y cynllun "Camau Nesaf" ac rydym wedi darparu profiad gwaith ar gyfer prentisiaid a rennir drwy CCTAL (Carmarthenshire Construction Training Association Ltd) a CYFLE yn ogystal â lleoliadau tymor byr ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 10 mewn ysgolion uwchradd sy'n awyddus i ddilyn gyrfa ym maes adeiladu.

## Lleihau Ynni, Effeithlonrwydd a Chynaliadwyedd

Rydym wedi parhau i ddilyn ein polisi o gynnwys technolegau carbon isel a di-garbon yn rhan o brosiectau er enghraifft gosod y paneli ffotofoltäig yn ddiweddar yn Ysgol Bro Dinefwr ac Ysgol Carreg Hirfaen.  Rydym hefyd wedi darparu'r adeilad ysgol cyntaf yng Nghymru sy'n bodloni safonau Passivhaus sef Ysgol Porth Tywyn.

Aethom ati i barhau i ymchwilio, datblygu ac annog y dull 'ffabrig yn gyntaf' er mwyn gwireddu'r potensial o ddefnyddio llai o ynni a materion sy'n ymwneud â gwasanaethau wrth ymdrin â chynlluniau adnewyddu mawr a chynlluniau datblygu newydd. Bydd hyn yn ei dro yn atgyfnerthu a llywio prosiectau yn y dyfodol gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i gyfraddau a chostau gweithredol yn ogystal â chyfrannu at ein goblygiadau i leihau allyriadau CO2, yn enwedig wrth gyfuno hyn â deunyddiau crai sy'n lleol ac yn gynaliadwy. Roedd hyn wedi arwain at yr adeilad ysgol cwbl achrededig cyntaf yng Nghymru yn Ysgol Porth Tywyn. Rydym bellach yn datblygu dau gynllun arall gan fabwysiadu egwyddorion Passivhaus ar y cyd â gofynion Rhagoriaeth BREEAM.

Mae'r cynnydd mewn costau gwasanaethau, yn ogystal â dirwyon cysylltiedig am allyriadau carbon yn golygu bod angen rhaglenni effeithlonrwydd ynni hyd yn oed yn fwy heriol. Rydym yn archwilio cyfleoedd arbed ynni uchelgeisiol yn ein hadeiladau annomestig, gan gynnwys ysgolion, a hynny drwy raglen Re:fit Cymru a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, sy'n defnyddio contractau perfformiad ynni i sicrhau arbedion ynni. Mae hyn yn cyflymu ac yn cyd-fynd â'n rhaglen effeithlonrwydd ynni corfforaethol llwyddiannus lle mae £2+miliwn wedi cael ei fuddsoddi mewn dros 200 o brosiectau effeithlonrwydd ynni a rhagwelir y byddant ar y cyd yn arbed £7+miliwn / 41,000 tunnell o CO2 yn ystod oes y technolegau.

## Y Fflyd

Mae £7.60m wedi cael ei fuddsoddi mewn fflyd newydd o gerbydau a rhagwelir £1.8m yn rhagor yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r holl gerbydau'n cynnwys y dechnoleg ddiweddaraf o ran allyriadau sy'n sicrhau mai fflyd cerbydau Sir Caerfyrddin yw'r fflyd fwyaf modern a chydnaws â'r amgylchedd yng Nghymru, os nad y DU gyfan. Rydym hefyd wedi lleihau nifer y cerbydau trwm yn y Gwasanaethau Priffyrdd o 35 i 21, sydd wedi sicrhau arbedion cyfalaf o £1.6m.

## Goleuadau Stryd

Mae Adran yr Amgylchedd yn newid ei oleuadau stryd i unedau LED mewn ymgais i leihau costau ynni ac allyriadau CO2. Wrth gyflwyno technoleg sy'n pylu'r golau, rhagwelir bydd y prosiect yn cyfrannu at arbedion effeithlonrwydd o £627,000 o flwyddyn i flwyddyn ar ôl ei gwblhau. Er bydd angen buddsoddiad cyfalaf o £2.9milwn bydd y ffynhonnell gyllido yn defnyddio benthyciad di-log o £1.4m drwy fenter Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru, gan arwain at arbedion o £410,000 yn ystod y pedair blynedd gyntaf. Byddai £217,000 yn rhagor yn cael ei arbed o ganlyniad i lai o gostau cynnal a chadw a chostau cerbydau a llafur. Cafodd cam 1 y broses o drawsnewid i oleuadau LED ei chwblhau ar amser ac mae cyfanswm o 3400 o oleuadau wedi cael eu newid.

## Ailgylchu

Mae cynaliadwyedd a pherfformiad amgylcheddol yn flaenoriaeth ar gyfer y Cyngor ac mae gwelliannau parhaus yn cael eu cyflawni. Yn 2015/16 llwyddodd y Cyngor i wella perfformiad ailgylchu unwaith eto drwy sicrhau cyfradd ailgylchu o 63.52%. Roedd y perfformiad hwn yn erbyn targed statudol o 58% gan osod y Cyngor yn y pedwerydd safle o ran ailgylchu yng Nghymru. Mae'r cyfrifiadau cychwynnol yn dangos gwelliannau pellach ar gyfer 2016/17 gyda chynnydd o 67.12% mewn ailgylchu yn cael ei amcangyfrif ar gyfer trydydd chwarter 16/17. Yn ychwanegol at gyfradd ailgylchu'r Cyngor, mae'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi wedi gostwng yn sylweddol, yn bennaf o ganlyniad i anfon gwastraff gweddilliol i Sgandinafia lle mae'n cael ei ddefnyddio fel tanwydd ar gyfer cynlluniau gwresogi cymunedol. Cafodd ychydig dros 5% o'r gwastraff trefol ei anfon i safleoedd tirlenwi yn 2015/16 o gymharu ag ychydig dros 18% y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn golygu mai Sir Gaerfyrddin yw un o'r Awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi a disgwylir y bydd hyn yn gwella ymhellach yn 2016/17.

## Gwastraff

Ym mis Hydref, cyflwynwyd cerbydau fflyd newydd i gasglu gwastraff yn y Sir, cytunwyd ar safon y cerbydau ledled y Sir ac aethpwyd ati i gaffael cerbydau casglu gwastraff bwyd a bagiau ailgylchu/gwastraff. O ganlyniad i hyn, mae nifer y cerbydau wedi lleihau'n sylweddol, o 54 cerbyd yn 2011/12 i 34 yn 2015/16. Yn rhan o gyflwyno'r fflyd newydd, cafodd y llwybrau casglu sbwriel eu haildrefnu, gan arwain at leihau nifer y milltiroedd o 185,000 y flwyddyn, ac yn hynny o beth lleihau ôl troed carbon y fflyd yn sylweddol. Cafodd y llwybrau newydd eu cyflwyno ddiwedd mis Hydref gan arwain at newidiadau yn y trefniadau casglu i tua 65,000 o aelwydydd o blith yr 87,000 o aelwydydd yn y Sir. Mae'r gwasanaeth newydd hefyd wedi golygu gostyngiad o 63% yn y tai sy'n cael gwasanaeth gan gerbyd bach â chaets, gan gynyddu effeithiolrwydd y gwasanaeth yn sylweddol. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn o £8m yn y fflyd cerbydau gall y Cyngor ymfalchïo yn y fflyd cerbydau mwyaf modern, lleiaf niweidiol o ran allyriadau carbon yng Nghymru.

## Gwasanaethau Stryd/Llecynnau Cyhoeddus

Mae ein timau Glanhau, Gorfodi materion amgylcheddol, Cynnal a Chadw Tiroedd, Rheoli Llifogydd a Gwasanaethau Trefol yn parhau i sicrhau bod cynnal, diogelu a chadw yr amwynderau lleol a'r amgylchedd adeiledig yn parhau'n flaenoriaeth.

Mae'r awdurdod hefyd wedi cael gwybod am ddyfarniad cyllid llwyddiannus o ran Grant Refeniw Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2017-2018. Bydd y Grant o £3,702,267 yn galluogi'r Cyngor i ddarparu a gwella gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar Ansawdd yr Amgylchedd Lleol, Rheoli Adnoddau Naturiol ac Effeithlonrwydd Gwastraff ac Adnoddau.







# addysg

## Canlyniadau Arholiadau

Llwyddodd ein disgyblion ysgol i gyflawni'r canlyniadau arholiadau gorau erioed o ran TGAU am y drydedd flwyddyn yn olynol, gan gyflawni 65.1% o gymharu â'r dangosydd cynhwysol allweddol Lefel 2 (o leiaf 5 TGAU gradd A* i C yn cynnwys mathemateg ac iaith) gyda chanlyniadau profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar bob cam allweddol arall yn gwella ac yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau eraill. Hon oedd y bumed flwyddyn yn olynol y cafwyd gwelliant yn y dangosyddion allweddol ar gyfer canlyniadau arholiadau.

## Arolygiadau Ysgol gan Estyn

Yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16, bu Estyn yn arolygu **15 o Ysgolion Sir Gaerfyrddin** (12 cynradd, 2 uwchradd ac 1 Uned Cyfeirio Disgyblion). O blith y 15 ysgol a arolygwyd; dyfarnwyd bod gan 2 ysgol arfer sy'n arwain y sector; dyfarnwyd bod 3 ysgol yn ysgolion da; gosodwyd 2 ysgol yn y categori gweithgarwch dilynol – Monitro gan yr Awdurdod Lleol; gosodwyd 6 ysgol yn y categori gweithgarwch dilynol – Monitro gan Estyn a gosodwyd 2 ysgol yn y categori gweithgarwch dilynol – Angen Gwelliant Sylweddol. Y meysydd gwelliant a gafodd eu nodi oedd bod angen i hanner yr ysgolion a gafodd eu harolygu ganolbwyntio ar wella cyrhaeddiad ymhellach i gefnogi dyfarniadau uwch o ran 'safonau' a gwella Arweinyddiaeth a Gwella Ansawdd ymhellach.

## Cyfoethogi'r Cwricwlwm

Rydym wedi parhau i ddarparu ystod o brofiadau cyfoethogi'r Cwricwlwm sydd wedi cynnwys yr enghreifftiau canlynol.

Cymryd rhan mewn cystadlaethau darllen ac ysgrifennu megis; cwis Cyngor Llyfrau Cymru 2015-16, lle enillodd Ysgol Llannon y Rownd Genedlaethol ar gyfer blynyddoedd 3 a 4; Cwis Llyfrau newydd ar gyfer CA3, gyda disgyblion Blwyddyn 9 Ysgol y Strade yn ennill; BookSlam 2015-16 sef cystadleuaeth ddarllen genedlaethol gan Gyngor Llyfrau Cymru, gydag Ysgol Glanyfferi ac Ysgol Gynradd Tre Ioan yn cyrraedd y Rownd Genedlaethol; ac ugain o ddisgyblion 'Mwy Abl a Thalentog' o CA3 yn cymryd rhan yn ein Sgwad Sgwennu Cymraeg tymhorol.

Mae Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig yn gwahodd ysgolion ledled Cymru i ymgymryd â phrosiectau treftadaeth a'u cyflwyno ar gyfer y gystadleuaeth dreftadaeth genedlaethol hon. Bu eleni'n flwyddyn lwyddiannus arall i ysgolion yn Sir Gaerfyrddin, gyda chwe chais buddugol.

Eleni bu partneriaeth y Scarlets yn canolbwyntio ar e-lyfrau a bu'r pum ysgol Arloesi Digidol yn Sir Gaerfyrddin yn ystyried gwahanol agwedd ar brofiad y Scarlets megis diwrnod gêm ac effaith y stadiwm ar yr amgylchedd. Mae Sir Gaerfyrddin wedi bod yn sir Masnach Deg ers bron i saith mlynedd. Mae ysgolion y sir wedi cyfrannu'n sylweddol at hyn. Mae nawdeg o ysgolion wedi cofrestru ar y cynllun Masnach Deg ac mae 20 ysgol wedi gweithio'u ffordd drwy'r rhaglen lawn ac wedi ennill baner Masnach Deg.

## Cynllun Ysgolion Iach

Mae'r Cynllun Ysgolion Iach ar ei 13eg flwyddyn bellach gyda chyfanswm o 113 o ysgolion yn cymryd rhan yn y cynllun. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon roedd cyfanswm o bedair ysgol wedi llwyddo i gwblhau cam arall yn y cynllun. Ar hyn o bryd mae 4 ysgol yn gweithio tuag at Gam 2, 16 ysgol yn gweithio tuag at Gam 3, 35 ysgol yn gweithio tuag at Gam 4, 36 ysgol yn gweithio tuag at Gam 5 ac 19 ysgol yn gweithio tuag at y Wobr Ansawdd Genedlaethol, sef y wobr uchaf y gellir ei hennill yn y cynllun.

## Ein Rhaglen Moderneiddio Addysg

Mae ein Rhaglen Moderneiddio Addysg yn ei hanterth, gyda phrosiectau datblygu mawr o ran ysgolion yn cael eu cwblhau yn Ysgol Bro Dinefwr, Ysgol Maes y Gwendraeth, Ysgol Carreg Hirfaen ac Ysgol Bryngwyn, gyda miloedd o blant ar eu hennill.

Bydd y rhaglen fuddsoddi ffyniannus hon ar gyfer ein hysgolion yn parhau dros y 12 mis nesaf gyda **£23 miliwn** yn cael ei wario yn cwblhau prosiect yn Ysgol Coedcae, parhau â phrosiectau datblygu mawr yn Ysgol Penrhos, Ysgol Trimsaran ac Ysgol Sant Ioan Llwyd. Bydd gwaith hefyd yn dechrau yn Ysgol Llangadog, Ysgol Parc y Tywyn, Ysgol Dewi Sant, Ysgol Pontyberem, Ysgol Rhys Pritchard ac Ysgol Rhydygors, ac ar yr un pryd bydd nifer o brosiectau eraill yn cael eu datblygu yn barod ar gyfer buddsoddiad yn y blynyddoedd nesaf.

Rydym hefyd wedi creu Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg cyntaf Sir Gaerfyrddin sef Ysgol Bro Myrddin ac wedi sefydlu ysgol gynradd yn lle'r ysgol babanod ac ysgol iau olaf yn y sir gydag Ysgol Gynradd Gymraeg newydd ar gyfer plant 3-11 oed yn Llangennech.

## Gwasanaeth Ieuenctid

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wedi bod yn ymwneud â darparu'r Prawf Rheoli Achosion Uwch (ECM) dros y ddwy flynedd diwethaf; dull yw hwn sy'n ymwneud â goruchwylio pobl ifanc sydd wedi troseddu, ac mae'n cael ei gefnogi gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cymru.  Mae'r dull sy'n seiliedig ar y Model Adfer Trawma wedi cael ei werthuso gan Cordis Bright. Yn Sir Gaerfyrddin (sef un o 3 Tîm Troseddu Ieuenctid ledled Cymru) rydym wedi gweithio gyda'r nifer mwyaf o bobl ifanc yn ystod y prawf (11 o bobl ifanc).

Mae'r dull yn golygu bod staff wedi derbyn hyfforddiant er mwyn darparu'r model. Wrth weithio gyda'r bobl ifanc dan sylw, mae'r ymarferwyr yn mynd yn ôl at ddechrau bywyd y person ifanc; yn casglu gwybodaeth allweddol gan rieni/gofalwyr a chofnodion perthnasol ac yna'n mynd i gyfarfod 'ffurfio achos' ar y cyd â'u rheolwr llinell gyda'r wybodaeth a ddaeth o'r prawf a datblygu amserlen fanwl a chynllun ymyrraeth.  Mae ymarferwyr hefyd yn derbyn goruchwyliaeth glinigol gan Seicolegydd Clinigol ECM yn ystod y broses. Mae'r model wedi cael derbyniad da gan ymarferwyr yn Sir Gaerfyrddin ac maent o'r farn ei fod yn ddull effeithiol o ennyn diddordeb pobl ifanc tuag at newid.





## Gwasanaeth Cerdd

Mae'r Gwasanaeth Cerdd yn wasanaeth mawr ei barch sy'n cael ei werthfawrogi yn y sir ac yn genedlaethol, a heb os mae wedi codi proffil Sir Gaerfyrddin ledled y Deyrnas Unedig. Mae uchafbwyntiau'r perfformiadau diweddar yn cynnwys; y Côr Merched Ysgolion Uwchradd yn perfformio yn y proms Music For Youth yn Neuadd Frenhinol Albert, ac ar ddechrau mis Ebrill yn ennill cystadleuaeth fawreddog Côr Cymru o dan arweiniad y cerddor talentog Islwyn Evans.

Mae Cerddorfa Sir Gaerfyrddin wedi perfformio yn y Symphony Hall, Birmingham yn ystod Rownd Derfynol Rhanbarthol Music for Youth a chyn hir bydd yn gyfrifol am y perfformiad cyntaf yn ystod y UN School by County Orchestra yn Efrog Newydd, Unol Daleithiau America. Ensemble pres Gwasanaeth Cerdd Caerfyrddin yn perfformio yn ystod darllediad awyr agored gan BBC Radio Wales.

## Gwasanaethau Plant

Ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gael arolygiad o'n gwasanaethau plant gan yr AGGCC o dan y fframwaith arolygu newydd sy'n cyd-fynd â disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cawsom ddyfarniad da iawn, gydag ychydig yn unig o argymhellion syml i fynd i'r afael â hwy.

## Gwreiddio cydweithredu effeithiol

Fel y nodwyd yn gynharach yn fy adroddiad, mae'r Adran Addysg yn ymwneud â nifer o ddulliau o weithio ar y cyd. Mae'r rhain yn cynnwys ymagwedd ranbarthol at Wasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, a Gwasanaeth Mabwysiadau Canolbarth  a Gorllewin Cymru sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys. Drwy gyfrwng ERW (Ein Rhanbarth ar Waith) rydym wedi rhannu Pennaeth Effeithiolrwydd Ysgolion â Sir Benfro. Mae cryfder y bartneriaeth leol sy'n gweithio i ddarparu'r cwricwlwm 14-19 oed yn parhau i arwain y sector yng Nghymru.



# gwasanaethau cymunedol

Y gyfarwyddiaeth Cymunedau yw un o adrannau mwyaf yr awdurdod sydd yn cyflogi bron i 1,600 o bobl ac sydd â'i gwariant cyfan yn agos i £144,000,000, gyda bron i £50,000,000 ohono yn incwm a gynhyrchir. Mae'n rheoli gwasanaethau amrywiol o ofal cymdeithasol i oedolion, iechyd yr amgylchedd, tai, amgueddfeydd a datblygu chwaraeon.

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae'r galw am ddarpariaeth gofal cymdeithasol i oedolion yn tyfu'n gyson ledled Cymru. Yn hanesyddol mae'r gyllideb wedi gorwario, gyda'r ceisiadau am wasanaeth oddi wrth boblogaeth sy'n heneiddio yn drech na'r cyllidebau sydd ar gael. Wrth i'r boblogaeth sydd dros 85 oed yn y sir gynyddu gymaint â 3% y flwyddyn mae'n anochel y bydd rhaid i ni wario mwy ar y maes gwasanaeth hwn yn y tymor canolig i'r tymor hir. Fodd bynnag, nod ein strategaeth pobl hŷn, a lansiwyd y llynedd, oedd trawsnewid gwasanaethau trwy ddatblygu darpariaeth gymunedol a thrwy newid mewn diwylliant sydd yn cydnabod bod pennu gofal gormodol i bobl yn eu gwneud yn fwy bregus a pheri eu bod yn colli eu hannibyniaeth. Mae ein gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig wedi ein galluogi i weithredu'r strategaeth hon yn effeithiol ac mae wedi golygu bod yr adran Cymunedau bellach wedi llwyddo o fewn ei chyllideb ddyranedig am yr ail flwyddyn yn olynol, sydd yn groes i'r holl dueddiadau cenedlaethol.

Mae'r gwaith o weithredu ein fframwaith comisiynu ar gyfer gofal cartref wedi bod yn gyfraniad pwysig tuag at reoli adnoddau mewn modd gwell. Rhoddodd Sir Gaerfyrddin fframwaith ar waith ar gyfer darparwyr annibynnol sydd yn sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ansawdd yn hytrach na chost, sy'n monitro hyd galwadau'r darparwyr yn awtomatig ac sy'n galluogi'r darparwyr i ddefnyddio'r oriau mewn modd mwy hyblyg fel nad yw galwadau ar gyfer pobl agored i niwed yn cael eu torri'n fyr. O ganlyniad i'r fframwaith hwn rydym yn un o'r awdurdodau mwyaf blaengar yng Nghymru ac rydym wedi gweithio gydag AGGCC i gynnal gweithdai cenedlaethol i gynorthwyo awdurdodau eraill i wella yn y maes heriol hwn. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi rhoi'r gorau i allgontractio gofal cartref ymhellach, gan ffafrio yn hytrach ein bod yn buddsoddi yn ein gwasanaeth mewnol. Dros y 12 mis nesaf disgwyliwn weld cynnydd bach yng nghyfran y gofal cartref a ddarperir gan ein gwasanaeth mewnol.

Byddwn hefyd yn cynyddu'r cyflenwad o ofal ychwanegol a gofal nyrsio drwy'r datblygiad Llynnoedd Delta, gan adeiladu ar lwyddiant y datblygiadau gofal ychwanegol yn Rhydaman a Chaerfyrddin. Rydym yn cadw ein darpariaeth breswyl fewnol bresennol wrth ystyried pa fuddsoddiad cyfalaf fydd ei angen i wella'r amgylcheddau ffisegol.

Mae tîm gwybodaeth, cyngor ac asesu newydd yr adran yn darparu un rhif, 24 awr y dydd er mwyn cael cyngor a chymorth ynghylch gofal cymdeithasol a bydd hyn, ynghyd â'r penderfyniad i greu gwasanaeth gwaith cymdeithasol pwrpasol y tu allan i'r oriau arferol, yn rhoi'r siawns orau bosibl i ni o gael yr help iawn i bobl ar yr adeg iawn.

Mae Diogelu Oedolion yn flaenoriaeth a thros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi buddsoddi mewn strwythur newydd ar gyfer y gwasanaeth hwn i wella'r amserau ymateb a sicrhau bod gennym y gallu i atal pobl agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Mae hon wedi bod yn rhaglen lwyddiannus o newid, a chyda'r gwelliant yn yr amserau ymateb gallwn fod yn hyderus y bydd y bobl fwyaf agored i niwed yn y gymuned yn fwy diogel nag erioed.

## Tai a Diogelu'r Cyhoedd

Mae un o bob deg person yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tŷ cyngor. Rydym yn falch o'r ffaith ein bod wedi gallu buddsoddi yn y cartrefi hyn dros lawer o flynyddoedd fel eu bod yn rhagori ar y safon genedlaethol ar gyfer tai. Mae'r buddsoddiad hirdymor hwn wedi rhoi'r cyfle i ni fuddsoddi er mwyn cynyddu ein stoc dai, a fydd yn galluogi mwy o bobl i fyw mewn cartrefi diogel a fforddiadwy sydd o safon dda. Mae ein strategaeth tai fforddiadwy yn uchelgeisiol a'i nod yw cynyddu nifer y tai fforddiadwy gymaint â 1,000 yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Rwyf wrth fy modd ein bod wedi rhagori ar y targed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rwyf yn falch o'r ffaith ein bod wedi bod yn prynu tai o'r farchnad agored yn ôl i'r sector cyhoeddus ar gyfradd o bron i un yr wythnos. Mae'r cynlluniau i ddechrau adeiladu tai unwaith eto bellach yn dod yn eu blaenau'n dda ar nifer o safleoedd posibl. Dylai'r penderfyniad i greu cwmni tai i ddatblygu tai fforddiadwy ymhellach ganiatáu i ni ehangu'r tai fforddiadwy ledled y sir.

Mae effaith y diwygiadau budd-dal ar fforddiadwyedd rhent wedi bod yn destun pryder i ni, ac rydym wedi diwygio ein rhaglen monitro ac ymyriadau ar gyfer y tenantiaid hynny sydd ar ei hôl hi o ran talu eu rhent. Mae ymgyrch amlgyfrwng wedi annog y rheiny sydd yn cael anawsterau gyda thalu eu rhent i ofyn am gymorth yn gynnar. Mae hyn wedi lleihau'r ôl-ddyledion rhent sydd gan denantiaid yn sylweddol.

Yn olaf, mae ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol yn mynd o nerth i nerth gyda landlordiaid y sector preifat yn ein dewis ni i reoli eu heiddo. Bydd y cynllun arloesol hwn yn gwella safonau yn y sector rhentu preifat hefyd.

## Hamdden

Eleni gwelwyd dechrau buddsoddiad mewn hamdden a threftadaeth ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen. Yn ein canolfannau hamdden mae'r buddsoddiad o bron i filiwn o bunnau i adnewyddu'r campfeydd wedi arwain at gynnydd mawr yn y niferoedd sy'n eu defnyddio a chynnydd mewn incwm, gan ein bod yn awr yn wir yn cynnig y profiad gorau yn y sir. Gyda'r oriau agor estynedig a'r aelodaeth teulu sydd bellach ar gael i blant 11 oed a throsodd, mae'n costio llai na £1.50 y dydd i deulu gael mynediad diderfyn i byllau nofio, campfeydd a dosbarthiadau. Mae hyn yn rhoi gwerth gwych am arian ac yn gyfraniad gwirioneddol tuag at wneud poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn iach ac yn egnïol.

Yn olaf, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi mwy nag £20miliwn mewn canolfan hamdden newydd yn Llanelli. Mae gennym uchelgais o gynnwys unig ganolfan blymio Cymru fel rhan o'r datblygiad hwn, ac felly byddai'r ganolfan yn un o'r prif atyniadau llesiant yn Llanelli a fyddai'n cysylltu'r arfordir â'r dref ac yn darparu'r cyfleusterau hamdden gorau yn y sir i bobl Llanelli.

Gwneir gwell defnydd nag erioed o'n gwasanaeth llyfrgelloedd, ac yn y misoedd sydd i ddod rydym yn falch o fod yn lansio gwasanaeth symudol newydd ar gyfer ein hardaloedd gwledig gyda thri cherbyd newydd. Roeddwn yn falch o weld mai llyfrgell Llanelli yw'r un sy'n benthyg y 3ydd nifer uchaf o lyfrau o blith holl lyfrgelloedd y Deyrnas Unedig.

Mae ein hamgueddfeydd wedi dioddef o ganlyniad i ddiffyg buddsoddiad dros nifer o flynyddoedd. Mae gwella'r gwasanaeth hwn yn flaenoriaeth, ac i'r perwyl hwn bydd strategaeth amgueddfeydd newydd yn cael ei chyhoeddi yn nes ymlaen eleni, gyda chynlluniau i fuddsoddi'n sylweddol mewn amgueddfa cyflymder newydd ym Mhentywyn; Datblygu tir Amgueddfa'r Sir yn Abergwili (a fydd yn darparu porth i'r llwybr beicio newydd yn nyffryn Tywi) a pharhau i ddatblygu'r hyn a gynigir ym Mharc Howard. Rydym hefyd wedi comisiynu gwasanaeth archifau newydd. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddiad o £2,000,000 yn gysylltiedig â llyfrgell Caerfyrddin a bydd yn darparu cartref o'r radd flaenaf i ddogfennau treftadaeth sy'n adlewyrchu hanes rhyfeddol y sir a mynediad i'r cyhoedd i'w gweld. Dyma fuddsoddiad yn ein treftadaeth ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen, a bydd yn darparu ffenest i hanes ein sir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.









## I Gloi

Rydym wedi treulio'r ddwy flynedd ddiwethaf yn rhoi cynlluniau ar waith a fydd yn sicrhau adfywio ein sir. Dros y ddwy flynedd diwethaf, pwysleisiais nad gweinyddiaeth dros dro oeddem ni ac y byddai’r cynlluniau a'r strategaethau rydym wedi eu gweithredu yn cyd-fynd â'r weledigaeth a rennais gydag aelodau'r cyngor ddwy flynedd yn ôl.

Bydd y pum mlynedd nesaf yn ein gweld yn cyflawni ar y cynlluniau a’r strategaethau hyn, gan ganolbwyntio’n llwyr ar adfywio trefol a gwledig, gydag uchelgais i ddiogelu a gwella ein gwasanaethau rheng flaen, a hynny yn wyneb y toriadau parhaus a rhaglen genedlaethol o doriadau.

Dywedodd Llywydd newydd Ffrainc, Emmanuel Macron yn ddiweddar, pan nad yw gwleidyddiaeth bellach yn genhadaeth ond yn hytrach yn broffesiwn, bydd gwleidyddion yn hunan-wasanaethu yn hytrach na gwasanaethu’r cyhoedd.

Felly gadewch i ni i gyd ganolbwyntio ar y gwaith sydd o’n blaenau. Mae gennym gyhoedd i’w cynrychioli, gweledigaeth i yrru ymlaen, tasg i'w chwblhau ac uchelgais i’w gwireddu. Edrychaf ymlaen at y pum mlynedd nesaf wrth i ni symud Sir Gaerfyrddin ymlaen.